**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Mawrth 2013**

## SEFYDLU CYFAMODAU CYMUNEDOL Y LLUOEDD ARFOG

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Gofynnir i'r Aelodau gadarnhau eu bod yn cymeradwyo bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cytuno i Gyfamodau Cymunedol y Lluoedd Arfog ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ac ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

## Cefndir

2 Yn ei lythyr dyddiedig 16eg Gorffennaf 2012 (atodiad 1) roedd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant, yn annog pob Awdurdod Lleol a'u partneriaid, sy'n cynnwys Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, i greu Cyfamodau Cymunedol gyda Chymuned y Lluoedd Arfog.

3 Cyngor Sir Ynys Môn oedd y cyngor cyntaf yn y rhanbarth hon i ymateb i'r cais hwn drwy lunio a llofnodi cyfamod gyda Chymuned y Lluoedd Arfog yn 2012. Ar ôl cael cyngor cyfreithiol mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bellach mewn sefyllfa i lunio ei gyfamod. Mae'r ddwy ddogfen wedi eu hatodi.

## Gwybodaeth

4 Nodir egwyddorion Cyfamodau Cymunedol y Lluoedd Arfog yn y ddwy ddogfen sydd wedi eu hatodi (atodiad 2 a 3). Eu nod yw annog perthynas o barch a chefnogaeth at ei gilydd rhwng

awdurdodau lleol, eu partneriaid a'r Lluoedd Arfog. Nid ydynt yn rhoi unrhyw freintiau na thriniaeth arbennig i staff sy'n aelodau neu'n gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog. Fodd bynnag, mae'r Cynghorau a'u partneriaid yn cytuno i sicrhau nad yw'r bobl hyn a'u teuluoedd dan anfantais o ganlyniad i'w cysylltiad presennol neu flaenorol gyda'r Lluoedd Arfog.

5 Er mai gwirfoddol yw'r cyfamodau hyn, mae nifer o gynghorau yng Ngogledd Cymru wrthi'n ystyried datblygu eu rhai eu hunain. Mae cyfamod yn ddogfen gyfreithiol a dyna'r rheswm pam y gofynnir i sefydliadau eraill sy'n bartneriaid iddynt, megis Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, roi eu cymeradwyaeth cyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam lofnodi'n swyddogol mewn seremoni ffurfiol ar 5ed Ebrill 2013.

6 Bydd unrhyw Gyfamodau Cymunedol yn y dyfodol gyda'r Lluoedd Arfog yn dod gerbron yr Awdurdod er mwyn cael cymeradwyaeth oherwydd y gallai union amcanion a bwriadau cyffredinol fod yn amrywio o'r naill awdurdod i'r llall. Yna bydd raid i'r Awdurdod Tân ac Achub benderfynu pa gamau i'w cymryd i gefnogi bwriadau pob cyfamod. Mae hyn yn debygol o ganolbwyntio ar fynediad i'n gwasanaethau diogelwch cymunedol.

7 Caiff y cyfamodau cymunedol eu cefnogi gan gynllun grant cyfamodau cymunedol, a sefydlwyd i roi cefnogaeth ariannol i brosiectau lleol sy'n cryfhau'r clymau neu'r gyd-ddealltwriaeth rhwng aelodau o gymuned y lluoedd arfog a'r gymuned ehangach lle maent yn byw. Mae'r cyfamodau yn caniatáu i'r Cynghorau, ynghyd â'u partneriaid, gael mynediad at arian grant uniongyrchol gan lywodraeth y DU.

**Argymhelliad**

8 Bod yr aelodau'n cadarnhau eu bod yn cytuno i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gytuno, fel partner cydnabyddedig, i Gyfamodau Cymunedol y Lluoedd Arfog ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.